COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CABINET RHIANTA CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 4 MEDI 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| P Davies | M J Evans | N Farr | J E Pratt |
| T Thomas | | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| RJ Collins | H M Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

E L P Caparros, M Jones, Lindsay Harvey ar JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Steve Berry | Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi |
| Lisa French | Rheolwr Gwasanaethau Adolygu Annibynnol |
| Raeanna Grainger | Rheolwr Grŵp, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a Diogelu |
| Gemma Hayne | Arweinydd Tîm Rhaglen Cyflogadwyedd |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp - Gweithio Integredig |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim.

## 53. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08/05/2024 fel gwir gofnod manwl gywir |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Medi 2024 |

## 54. Diweddariad Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Pobl Ifanc Sydd â Phrofiad o Ofal

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Rheolwr Tîm y Rhaglen Cyflogadwyedd yr adroddiad yn rhoi diweddarid o statws presennol darparu gwasanaeth a chynnydd Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynorthwyo pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ddod o hyd i waith ac ennill cymwysterau.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• Sut y gellir gwella cyfraddau ymgysylltu plant sydd â phrofiad o ofal.<br>• A fu namau cyffredin gydag ymgysylltu.<br>• Achosion posib diffyg ymgysylltu.<br>• Unrhyw gynlluniau pellach i gydweithio rhwng Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a Chyfarwyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi hefyd fod manteision y gwasanaeth yn wych ond y dylid annog mwy i gymryd rhan. Gofynnodd y pwyllgor hefyd am ddiweddariad pellach yn y dyfodol gyda manylion ychwanegol ynghylch plant sydd â phrofiad o ofal nad ydynt yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Medi 2024 |

## 55. Gwasanaeth Rhanbarthol Eiriolaeth Plant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a Diogelu'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd yng ngwasanaeth cyfeirio rhanbarthol Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddangos gostyngiad cyffredinol mewn defnydd ond gan ddarparu rhesymeg a chyd-destun rhai o'r newidiadau mewn ffigyrau. Cyflwynwyd peth adborth gan bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, a oedd yn ddi-os yn hynod gadarnhaol.<br><br>Cyflwynodd yr Aelodau gwestiynau ar y pynciau:<br><br>• Rhesymau dros y gostyngiad mewn atgyfeiriadau.<br>• Argaeledd posibl i blant gyda Chynlluniau Gofal a Chymorth.<br>• Sut y gellir casglu adborth pellach.<br>• Unrhyw broblemau gyda gofal preswyl fel y crybwyllwyd eisoes.<br>• Mesurau s'n cael eu cynnal i sicrhau adborth gan weithwyr cymdeithasol.<br>• Unrhyw ganlyniadau adolygu'r gwasanaeth.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Medi 2024 |

## 56. Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Adolygu Annibynnol 2023-2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a Diogelu'r adroddiad hwn gan adolygu gwaith y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol o fis Ebrill 2023 hyd at fis Mawrth 2024, gan ganolbwyntio ar y cynnydd da a wnaed ar nifer y plant ar y Gofrestr Diogelu Plant a phlant â phrofiad o ofal, gan gynnal cyfradd cydymffurfio uchel o 90%.<br><br>Roedd gan Aelodau gwestiwn am yr adroddiad ynghylch a oedd Tros Gynnal Plant dal yn ymwneud â'r gwasanaeth, a chafwyd ateb gan y Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a Diogelu.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, gan gydnabod y gwaith anhygoel mae'r Gwasanaethau Plant yn ogystal â Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarwyddiaeth Llesiant ehangach wedi ei wneud yn y cynnydd hwn a diolchwyd iddynt am eu hymroddiad ac ymrwymiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Medi 2024 |

| | |
|---|---|

## 57. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Medi 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00.